Enw'r mudiad	Disgrifiad 50 gair	Cais am grant	Lleoliad yng Nghymru	Thema
Ymddiriedolaeth Datblygu Theatr Clwyd	Mae Theatr Clwyd yn dechrau ar waith ailwampio cyfalaf mawr i ddiogelu un o asedau diwylliannol mwyaf arwyddocaol Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bydd y prosiect yn darparu adeilad mwy gwyrdd a hygyrch ar gyfer y gymuned, gyda gwelliannau amgylcheddol arloesol yn y diwydiant, gan gynnwys to gwyrdd, i gefnogi mentrau ymgysylltu cymunedol sy'n canolbwyntio ar gynaladwyedd.	£35,905.00	Sir y Fflint	Gwelliant amgylcheddol ehangach
Sefydliad Corfforedig Elusennol Cynulleidfa Tabernacl Treforys	Gwaith cyfalaf ar ad-drefnu'r Tabernacl, gan ei droi'n Hwb Gwydnwch Cymunedol, gyda chyfleusterau hygyrch a hyblyg o safon uchel ar gyfer y gymuned. Byddai pobl â phroblemau symud wedyn yn gallu cael mynediad at yr holl weithgareddau mewn ystafelloedd gwahanol. Byddai'r gosodiad newydd yn galluogi pedwar neu ragor o grwpiau i logi'r lle ar yr un pryd.	£48,925.00	Abertawe	Gwelliant amgylcheddol ehangach

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	Bydd Dôl Ofalgar Erddig yn trawsnewid lle sydd wedi tyfu'n wyllt na chaiff ei ddefnyddio digon yn ddôl â choetir, blodau gwyllt, cloddiau ac ardaloedd adlewyrchu ar gyfer pobl a bywyd gwyllt. Bydd y prosiect yn annog mynediad agored ac yn creu man gwyrdd ar gyfer gweithgareddau cymunedol, ynghyd â mynediad hawdd i bobl ymhél â natur	£34,200.00	Wrecsam	Bioamrywiaeth
Partneriaeth Ogwen	Datblygu ein mannau gwyrdd i fod yn erddi cymunedol llesol i natur a phobl. Rheoli safle rhandiroedd a chynnal gweithgareddau i hybu sgiliau bioamrywiaeth a garddio natur. Gwella cysylltiadau i rannu sgiliau tyfu, lleihau gwastraff a milltiroedd bwyd, a chryfhau teimlad o berchnogaeth gan drigolion. Develop our green spaces to be active community gardens for nature and people. Managing allotment sites and hold activities to promote biodiversity and nature gardening skills. Improve connections to share growing skills, minimise waste and strengthen residents' feeling of ownership.	£42,200.00	Gwynedd	Gwelliant amgylcheddol ehangach

Foothold Cymru	Llyfrgell feiciau yw Pŵer Pedal Llanelli, sy'n fenthyg beiciau wedi'u hachub o safleoedd tirlenwi a'u hailwampio. Mae hefyd yn cynnal ffeiriau trwsio, dosbarthiadau cynnal a chadw a digwyddiadau sy'n hyrwyddo gwastraff fel adnodd gwerthfawr. Nodau'r prosiect yw lleihau allyriadau carbon, meithrin diwylliant o drwsio ac ailddefnyddio, gwella llesiant, a gwneud beicio'n fforddiadwy i'r rheini ar incwm isel.	£49,997.90	Sir Gaerfyrddin	Lleihau Gwastraff
Trwsio a Rhannu (sy'n masnachu fel Caffi Trwsio Cymru)	Mae gennym 100 o Gaffis Trwsio llwyddiannus yng Nghymru; mae gwirfoddolwyr yn trwsio eitemau, gan leihau safleoedd tirlenwi, cael pobl i ailddefnyddio cymaint â phosibl, arbed arian, addysgu sgiliau trwsio, a meithrin cydlyniant cymunedol. Byddwn yn cyrraedd 8 cymuned flaenoriaethol newydd ac yn pontio'r bwlch sgiliau rhwng cenedlaethau, gan greu o leiaf 3 Caffi Trwsio newydd mewn amgylcheddau dysgu ôl-16 a 2 mewn llyfrgelloedd.	£49,998.89	Conwy Caerdydd Wrecsam Merthyr Tudful	Lleihau Gwastraff
Cymdeithas Gymunedol Yemenïaidd Casnewydd (NYCA)	Bydd NYCA yn gwella sgiliau / dealltwriaeth o'r amgylchedd/cynaliadwyedd, drwy greu gardd/lotment cynaliadwy a arweinir gan y gymuned, ehangu cynllun ailgylchwyr presennol NYCA i gynnwys "llyfrgell fenthyca", datblygu grŵp cyfnewid/addasu dillad bob wythnos a chreu caffi drwsio.	£49,464.00	Casnewydd	Lleihau Gwastraff

Cymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd Cyf.	Nod prosiect NAWR yw cefnogi cymunedau tai cymdeithasol yng Nghaerdydd i drechu problemau gwastraff a thipio anghyfreithlon, ynghyd â chefnogi'r symud tuag at gasgliadau ailgylchu ar wahân. Bydd y prosiect yn nodi'r heriau ym mhob cymuned ac yn addysgu ac yn cefnogi trigolion ar sut i leihau gwastraff ac ailgylchu mwy.	£49,963.00	Caerdydd	Lleihau Gwastraff
Tir Gwyllt	Bydd y prosiect yn gwarchod coetiroedd yng Nghei Connah, Sir y Fflint. Bydd yn adeiladu ar yr ymgysylltu cymunedol sydd eisoes wedi'i wneud, gan gynnwys pobl leol mewn sesiynau cadwraeth a digwyddiadau tymhorol awyr agored sydd wedi'u dylunio i feithrin cysylltiad â natur. Bydd sesiynau addysg awyr agored yn cael eu cynnig i ysgolion o fewn pellter cerdded i'r coetiroedd.	£49,931.41	Sir y Fflint	Gwelliant amgylcheddol ehangach
Gardd Furiog Fictoraidd Erlas	Mae Gardd Furiog Fictoraidd Erlas yn cynnig codi Lloches Natur addysgol a chyflogi Gweithiwr Cymorth Gardd i addysgu grwpiau cymunedol ar yr ecosystemau y gellir dod o hyd iddynt yn ein Gardd Dreftadaeth Gymreig unigryw, a'r offer garddio i gynyddu bioamrywiaeth a gwella seilwaith gwyrdd y safle.	£39,975.00	Wrecsam	Gwelliant amgylcheddol ehangach

Groundwork Cymru	Bydd gwirfoddolwyr o grwpiau cymunedol ac ysgolion lleol yn glanhau rhannau o Afon Rhymni ym Mwrdeistref Caerffili, yn tynnu gwastraff o'r afon a glannau'r afon a'i ailgylchu, gan wella iechyd yr afon a'i dalgylch, a chodi ymwybyddiaeth o effaith gwastraff ar ecoleg afonydd.	£20,954.00	Caerffili	Lleihau Gwastraff
Ymddiriedolaeth Sied Nwyddau Rheilffordd Llanelli	Rydyn ni eisiau cyflwyno rhaglen o weithgareddau sy'n ymhél ein cymuned â bioamrywiaeth ar safle ôl-ddiwydiannol, gan gynnig cyfleoedd gwirfoddoli o ansawdd i bobl ddatblygu sgiliau newydd a chynyddu eu gwybodaeth a grymuso pobl i gymryd camau positif i helpu i wella'r fioamrywiaeth yn ein hardal.	£30,336.25	Sir Gaerfyrddin	Bioamrywiaeth
Beicio i Bawb	Bydd y prosiect yn lleihau gwastraff ac yn gwella llesiant drwy dri phrif lwybr: cynnig gwasanaeth 'cyfnewid beiciau' ar sail rhoddion i blant sydd wedi mynd yn rhy fawr i'w beiciau, ailwampio beiciau nad oes eu hangen mwyach i'w rhoi i deuluoedd gyda ffocws arbennig ar deuluoedd ar incwm isel, a chynnal sesiynau 'dysgu beicio' a 'beicio i deuluoedd'.	£44,027.51	Wrecsam	Lleihau Gwastraff

Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru	Bydd y prosiect hwn yn dwyn cymunedau ynghyd ac yn eu huwchsgilio, gan roi'r wybodaeth, yr hyder a'r brwdfrydedd i'w galluogi i weithio gyda'i gilydd i ffurfio grwpiau 'Mabwysiadu' ar y rhan o afon sydd agosaf atynt, fel y gallant ofalu amdani a gwella ei hiechyd a'i bioamrywiaeth ar gyfer y dyfodol.	£49,987.92	Sir Gaerfyrddin	Bioamrywiaeth
The Orchard Project	Gan weithio gyda'r gymuned yn Abertawe, byddwn yn dod â phobl ynghyd o genedlaethau gwahanol i wirfoddoli a dysgu sgiliau newydd wrth adfer ac ehangu perllan gymunedol hanesyddol. Bydd hon yn troi'r berllan bywyd gwyllt, sy'n gyfoeth o fioamrywiaeth drwy greu cynefinoedd newydd a phlannu mwy o goed.	£39,402.50	Abertawe	Bioamrywiaeth